

Hau yr had

Os oes dameg sy'n dod i'r meddwl ar gyfer yr amser yma o'r flwyddyn, mae'n siŵr mai Dameg yr Heuwr yw honno. Buom yn trafod y ddameg, yn dilyn pregeth arni gan Bryn (Williams), yn ein Seiat neithiwr lle cafwyd trafodaeth ddifyr ac adeiladol. Os nad ydych wedi ei darllen yn ddiweddar, hoffwn eich annog i fynd i'w darllen eto yn Efengyl Marc pennod 4 ac adnodau 1–20.

Fel gweithiwr gyda phlant ac ieuencid, fy mraint i yw cael y cyfle i fod yn "heuwr" mewn amryw o sefyllfaoedd. Dros yr ugain mlynedd a mwy diwethaf rydw i wedi cyfarfod llawer o bobl arbennig iawn sydd wedi bod yn hau yr had yn ffyddlon ym mywydau plant ac ieuencid ein gwlad mewn ysgolion Sul, clybiau plant ac ieuencid, llawer ohonyn nhw yn dal i hau. Mae'n siŵr eu bod hwythau fel finnau wedi dod ar draws gwahanol bridd hefyd, a thrwy ddaioni Duw, wedi profi hadau yn syrthio ar dir da, yn tyfu, ffrwytho ac yn cynyddio. Mae hynny yn llawenydd pur!

Mae'n siŵr y gallwch chi, fel finnau, feddwl am y bobl arbennig rheini fu'n hau yr had, y Newyddion Da am Iesu, yn ein bywydau ninnau hefyd. Cymrwch funud i feddwl amdany'n nhw a diolch i Dduw amdany'n nhw.

Un sylw godwyd yn ein trafodaeth neithiwr oedd am yr heuwr. Gwelai un ei fod yn heuwr digon esgeulus o'i hadau yn eu gwasgaru ar dir gwael y llwybr, y tir creigiog ac ymysg y drain. Tybed? Os y meddyliwn amdanom ein hunain yn hau'r gair, pwy ydyn ni i benderfynu ar pa dir i hau yr had? Os edrychwn ar dir wedi ei droi yn barod i'w hau, tybed fedrwn ni ddweud, heb brawf gwyddonol ar natur y pridd, pa ran ohono yw'r lle gorau ar gyfer y tyfiant a'r cnwd gorau? Ond mae Duw yn gweld y tir – sef ein calonnau ni – ac yn gwybod ein natur. Duw hefyd sy'n "trin tir" ein calonnau i'w baratoi ar gyfer yr had.

Tybed ydyn ni wedi edrych ar ymddygiad neu agwedd plentyn, person ifanc, neu oedolyn rhywdro a meddwl fod tir eu calon yn debyg i'r llwybr, y creigiau neu'r drain? Tybed ydyn ni wedi atal ein llaw rhag gwasgaru'r had yno? Duw ŵyr



calon bob un ohonom. Duw ŵyr am ein gobeithion, anghenion a'n pryderon i gyd. Dewch i ni weddio am arweiniad i hau yr had yn ffyddlon ac yn ddiwahân fel yr heuwr, gyda ffydd y bydd Duw yn peri tyfiant, ffrwytho a chnydio.

Os gwelwch yn dda, wnewch chi weddio

- dros y rhai ffyddlon sy'n parhau i weithio gyda phlant ac ieuencid a'u teuluoedd yn ein eglwysi ar hyd a lled Cymru;
- y bydd Duw yn paratoi calonnau i dderbyn had ei air yn ystod tymor newydd o weithgarwch ymysg plant, ieuencid a'u teuluoedd;
- dros y plant a'r ieuencid fu ar gyrsiau yng Ngholeg y Bala, mewn clybiau gwyliau a chenhadaethau traeth dros yr haf, y bydd yr had blanwyd yno yn tyfu;
- drosom fel Tîm Plant, Ieuencid a Theuluoedd wrth i ni wasanaethu yn eich mys.

I gloi, dyma'r adnod rannwyd ar ddiwedd ein Seiat oedd yn ein hannog ymlaen i hau'r gair:

"Fel y mae'r glaw a'r eira yn disgyn o'r nefoedd, a heb ddychwelyd yno nes dyfrhau'r ddaear, a gwneud iddi darddu a ffrwythloni, a rhoi had i'w hau a bara i'w fwyta, felly y mae fy ngair sy'n dod o'm genau; ni ddychwel ataf yn ofer, ond fe wna'r hyn a ddymunaf, a llwyddo â'm neges." Eseaia 55: 10–11

Nia W Williams,
Arweinydd Tîm Plant, Ieuencid a Theuluoedd



Anhrefn Awst 2019: cyfle gwyg i rannu'